EISTEDDFOD HYNAF CYMRU'N TROI'N DDIGIDOL

Mae'r ymateb wedi bod yn syfrdanol ar gyfer Eisteddfod Powys Rithiol 2021, gyda bron i 1200 o eitemau ar draws yr adrannau.

Diolch i bawb sydd wedi cystadlu, a diolch am amynedd yr holl athrawon, rheini a phawb fu'n llenwi ffurflenni cais. Nid hawdd oedd uwch-lwytho fideos gyda safon y signal gwe mewn rhai mannau o Faldwyn! 'Da ni gyd wedi dysgu sgiliau cyfrifiadurol newydd yn ystod y broses yma dwi'n meddwl!

Mae'n tîm o feirniaid profiadol wedi bod yn brysur yn pori trwy'r ymgeisiadau ac yn recordio'u beirniadaethau. Gallwn gadarnhau y bydd hon yn chwip o 'steddfod.

Gwyliwch y 'steddfod yn fyw ar Sianel You Tube Eisteddfod Powys wrth i Eisteddfod hynaf Cymru troi'n ddigidol!

Neu gallwch deipio https://tinyurl.com/EisteddfodPowys i mewn i porwr eich cyfrifiadur ac fe ddaw a chi i'r man cywir i wylio.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf y 10fed yw'r diwrnod mawr, a bydd yr Eisteddfod yn cael ei gyflwyno mewn tri sesiwn.

Sesiwn y Bore am 10am

Sesiwn y Pnawn am 2pm a

Sesiwn yr Hwyr am 6pm.

Mae copi o amserlen y cystadlaethau i'w gweld ar www.eisteddfodpowys.co.uk gyda amcangyfrif bras o'r amseroedd y bydd pob cystadleuaeth yn cael ei darlledu. Tybed a fyddwch chi'n cytuno gyda dewis y beirniaid neu'n meddwl fod rhywun wedi cael cam?! Felly dewch o hyd i gadair clud, eisteddwch yn ôl a mwynhewch!

WALES'S OLDEST EISTEDDFOD GOES DIGITAL

We have been amazed and stunned by the reaction to Eisteddfod Powys going digital. We have been overjoyed to learn that we have had almost 1,200 entries across all the competition sections.

A huge thank you to everybody who has competed in a variety of competitions, from poetry and literature to arts and crafts, and from cerdd dant singing to song composing and dancing. With the Eisteddfod being digital this year we were also able to introduce a number of different and fun competitions, such as a Kitchen Orchestra and a Football Chant!

Our experienced team of judges have been busy working their way through all your entries and recording their adjudications. We can confirm that this will be a fantastic Eisteddfod this year.

You can watch all the competing live on the Eisteddfod Powys You Tube channel as Wales's oldest Eisteddfod bursts onto the digital scene!

Or type https://tinyurl.com/EisteddfodPowys into your computer search engine- and it will take you to the right place to watch.

The big day is **Saturday the 10th of July,** and the huge number of entries means that the Eisteddfod will be presented in three sections.

Morning Session at 10am

Afternoon Session at 2pm and

Evening Session at 6pm.

The competition timetable is available on www.eisteddfodpowys.co.uk showing an approximate time when every competition will be broadcast. We wonder if you will agree with the judge's choices?! So, go ahead, find a comfortable chair, sit back and enjoy!